# Gwersi Offerynnol / Canu
# Cofrestru ar gyfer Medi 2026

Annwyl Riant / Cynhaliwr

Gwasanaeth Cerdd Rhondda Cynon Taf yw'r darparwr gwersi offerynnol a lleisiol mwyaf yn yr ardal leol ac rydym yn falch iawn i allu cynnig ein gwasanaethau yn ysgol eich plentyn. Os bydd eich plentyn yn dymuno derbyn neu barhau i ddysgu offeryn, mae'r llythyr hwn yn cynnwys holl fanylion sydd ei hangen arnoch.

**Pa fath o wersi offerynnol sydd ar gael?**

Mae'r Gwasanaeth Cerdd yn gallu darparu gwersi ar bob un o'r offerynnau canlynol:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Offerynnau Pres** (cornet, trwmped, trombôn, tiwba, corn Ffrengig, corn tenor, ewffoniwm, bariton) | | **Chwythbrennau** (ffliwt, obo, clarinét, sacsoffon, baswn) | **Llinynnau** (feiolin, fiola, soddgrwth, bas dwbl) | **Telyn** (telyn lifer, telyn bedal) |
| **Piano Bysellfwrdd** | **Canu** | **Gitâr** | **Offerynnau Taro** | **Drymiau** |
| *Cofiwch y gall y ddarpariaeth amrywio o ysgol i ysgol. Efallai mai'r rheswm am hyn yw nad yw ysgol eich plentyn ond am i ni gynnig rhai offerynnau neu nad oes digon o ddisgyblion eisiau dysgu. Cysylltwch â ni i gael gwybod mwy.* | | | | |

**Faint mae gwers yn ei gostio?**

Rydym yn falch o allu cynnig ystod o opsiynau fforddiadwy, mae manylion llawn i'w gweld ar gefn y llythyr hwn.

***Opsiwn 1: £16.88*** ***Opsiwn 2: £8.44*** ***Opsiwn 3: £5.63***

Codir tâl am y gwersi bob tymor. Mae rhai pobl yn talu'n llawn ond mae croeso i chi hefyd dalu mewn rhandaliadau. I helpu i gadw golwg ar bethau, byddwch yn derbyn e-bost wythnosol yn nodi unrhyw falans sy'n weddill a sut i'w dalu.

**Beth os oes angen offeryn ar fy mhlentyn?**

Mae gennych ddau ddewis - Prynwch offeryn eich hun neu logi un gennym ni. Mae llogi yn ffordd dda o roi cynnig ar offeryn cyn prynu offeryn. Yna, pan fyddwch yn barod, gallwn roi cyngor i chi ynglŷn â phrynu eich offeryn eich hun.

**Sut ydw i'n cofrestru fy mhlentyn ar gyfer gwersi?**

Ewch i'r ddolen ganlynol www.rctcbc.gov.uk/cofrestrugwersicerdd i gofrestru.

**Os yw eich plentyn eisoes yn derbyn gwersi, does dim angen ymrestru eto.**

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'ch plentyn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Cofion gorau


**Aeddan Williams**
**Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Cerddoriaeth | Professional Lead for Music**
**Gwasanaeth Cerdd RhCT | RCT Music Service**

**Canolfan Menter y Cymoedd | Valleys Innovation Centre**
Parc Hen Lofa'r Navigation | Navigation Park Abercynon, Aberpennar | Mountain Ash CF45 4SN Ffôn/Tel: 01443 744017

**Dr Marium Haque**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services



**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

# Opsiynau Gwersi

Mae Gwasanaeth Cerdd RhCT yn cyflwyno gwersi dros 37 wythnos o'r flwyddyn ysgol ac yn rhannu'r gost i'r 3 tymor. Mae'r opsiynau a gynigir yn seiliedig ar flynyddoedd o brofiad yn darparu gwersi offerynnol a lleisiol mewn ysgolion ac fe'u cynlluniwyd i ddiwallu anghenion pob dysgwr a hyrwyddo cynnydd da.

| | Sut caiff gwersi eu cyflwyno | Cost wythnosol fesul disgybl |
|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | Gwers unigol (25 – 30 munud) | £16.88 |
| **Opsiwn 2** | Rhannu gwers, 2 ddisgybl (25 – 30 munud)<br>*neu*<br>Gwers unigol (13 – 15 munud) | £8.44 |
| **Opsiwn 3** | Rhannu gwers, 3 disgybl (25 - 30 munud)<br>*neu*<br>*rhannu gwers, 2 ddisgybl* (17 – 20 munud)<br>*neu*<br>Gwers unigol (8 – 10 munud) | £5.63 |

***Opsiwn 3 – Ddim ar gael ar gyfer disgyblion Bl 7, 8, 9, 10, 11, 12 a 13***
***Am resymau ymarferol nid ydym yn argymell opsiwn 3 ar gyfer offerynnau mawr fel telyn, piano a bas dwbl***

**Manylion**
Er eich bod yn dewis yr opsiwn, y tiwtor fydd yn penderfynu'r ffordd fwyaf priodol o gyflwyno gwers eich plentyn. Byddant yn ystyried (ymhlith pethau eraill) safon y dysgwyr, yr offerynnau sydd ar gael a maint y gofod addysgu. Er enghraifft:

- Mae 3 dechreuwyr ffidil sydd ar opsiwn 3 yn debygol o gael eu haddysgu mewn grŵp am 30 munud
- Bydd 2 delynor (o safon wahanol) ar opsiwn 2 yn debygol o dderbyn 2 wers unigol o 15 munud yr un
- Bydd disgyblion sydd wedi dewis opsiwn 1 bob amser yn derbyn gwers unigol

Yr amrywiad o ran hyd gwersi yw oherwydd, er bod gan y rhan fwyaf o ysgolion wersi 1 awr o hyd, mae rhai ysgolion yn cael gwersi ychydig yn fyrrach ac mae'n rhaid i ni gydweddu ag amserlen pob ysgol wahanol.

**Canolfan Menter y Cymoedd | Valleys Innovation Centre**
Parc Hen Lofa'r Navigation | Navigation Park Abercynon, Aberpennar | Mountain Ash CF45 4SN Ffôn/Tel: 01443 744017

**Dr Marium Haque**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

erus o ran anabledd CYFLOGWR | disability confident EMPLOYER